



DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

GISDA I LANSIO LOGO I HYRWYDDO HAWLIAU POBL IFANC

DATGANIAD I'R WASG - 04/11/2016

Yn dilyn cyhoeddiad siarter Traws*Newid Cymru gan Lywodraeth Cymru mae GISDA yn falch gael lansio logo newydd i hyrwyddo hawliau pobl ifanc sydd yn adnabod eu hunain yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Bydd y lansiad swyddogol yn cael ei gynnal ar 16eg o Dachwedd yng Nghaffi Te a Cofi, Caernarfon.

Credai GISDA yn gryf mewn creu awyrgylch croesawgar i bobl ifanc o bob cefndir a chymhelliant yn hanfodol i unigolion gallu cyrraedd eu llawn botensial. I lwyddo i ddod yn oedolion annibynnol hyderus mae rhaid i bobl ifanc teimlo'n saff i fynegi eu hunain ym mhob awyrgylch. Drwy gydnabod y siarter yma mae GISDA yn ymrwmo i roi gwasanaeth teg a chyfartal i bob person ifanc, ac yn cydnabod y bobl ifanc yna sydd yn LHDT+.

Fel rhan o'i model therapiwtig sydd wedi ei ddatblygu dros y 18 mis diwethaf, mae GISDA yn hyrwyddo'r canllawiau, gwybodaeth ac yn defnyddio adnoddau sydd wedi datblygu o greu siarter Traws*Newid Cymru yn ei rhaglen anwytho staff newydd i'r cwmni. Golygai hyn bod pob aelod staff yn ymwybodol o faterion sydd yn wynebu pobl ifanc LHDT+.

Mae GISDA wedi mynd ati i gomisiynu person ifanc i greu logo i adlewyrchu'r ymrwymiad yma i roi gwasanaeth teg i gymuned LHDT+. Bydd y logo yn cael ei rhannu ar bob deunydd marchnata ac yn cael ei arddangos ymhob swyddfa a man cyhoeddus gan yr elusen.

Mae Aled Griffiths gweithiwr allweddol GISDA sydd wedi bob yn flaenllaw a gweithgar yn hyrwyddo hawliau pobl ifanc LHDT+ yn croesawu'r defnydd o'r logo.

'Mae agor i fyny a datgan hunaniaeth rywiol yn her enfawr i fwyafrif o bobol ifanc LHDT+, er newid positif yn y meddylfryd cymdeithasol dros y degawdau diwethaf, mae ymchwil yn datgan siwrne anodd iawn i bobol ifanc LHDT+ o hyd. Mae'r ofn neu'r realiti o gael ei gwrthod gan deulu a ffrindiau a chasineb yn y gymdeithas yn gallu arwain at broblemau iechyd meddwl dwys a ddigartrefedd.

Mae lansio ac arwyddo'r logo yn gam o ymestyn dwylo i bobol ifanc LHDT+ fel ei bod yn gwybod bod gweithwyr GISDA yn groesawgar iddynt drafod ei hunaniaeth, a hefyd creu awyrgylch gynhwysfawr fel bod pob person ifanc yn cael bod ynddynt ei hunain, bod yn hapus a bod yn llwyddiannus."

Bydd GISDA yn lansio'r logo dydd Mawrth y 16eg o Dachwedd yng Nghaffi Te a Cofi, Caernarfon am 4:30pm.

DIWEDD

Am fwy o fanylion cysylltwch â annes@gisda.co.uk / 01286 671153